# Y Pwyllgor Deisebau

## Cofnodion: PET(3) 06-11 : Dydd Mawrth 29 Mawrth 2011

Gellir gwylio'r cyfarfod hwn ar Senedd TV yn: http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf

**Amser:** 09.00 – 09.55
**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, y Senedd, Bae Caerdydd

**Aelodau'r Cynulliad yn bresennol**
Christine Chapman AC, Cwm Cynon (Cadeirydd)
Andrew RT Davies AC, Canol De Cymru
Veronica German AC, Dwyrain De Cymru
Rhodri Glyn Thomas AC, Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr

**Swyddogion**
Naomi Stocks, Clerc
Daniel Collier, Dirprwy Glerc
Joanest Jackson, Cynghorydd Cyfreithiol
Rhodri Wyn Jones, Cymorth Tîm

**Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon**

Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r Pwyllgor a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

Cafwyd ymddiheuriadau gan Bethan Jenkins. Dirprwyodd Rhodri Glyn Thomas ar ei rhan.

Cytunodd y Pwyllgor y gallai'r Clerc weithredu unrhyw gamau gweithredu nas cwblheir erbyn 31 Mawrth ar gytundeb y Pwyllgor presennol.

**Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol**

**P-03-136 Parcio yn y Mynydd Bychan a Birchgrove**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Gynghori'r pwyllgor a fydd yn gyfrifol yn y Pedwerydd Cynulliad i ailedrych ar y ddeiseb hon fel blaenoriaeth.

Ysgrifennu at y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gyfleu siom y Pwyllgor ynghylch diffyg ymgysylltiad Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro.

**P-03-143 Ysgol Penmaes**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Gynghori'r Pwyllgor a fydd yn gyfrifol yn y Pedwerydd Cynulliad i ystyried ymateb Llywodraeth Cymru ar yr opsiynau ar gyfer cefnogi gwasanaethau bysiau gwledig.

**P-03-150 Safonau Canser Cenedlaethol**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ofyn am ei barn am argymhellion adroddiad Macmillan.

**P-03-162 Diogelwch ar y ffyrdd yn Llansbyddyd**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y deisebwyr i ofyn iddynt a yw'r gwaith diogelwch wedi'i gwblhau ac a yw hyn yn bodloni amcanion y ddeiseb.

**P-03-170 Mencap Cymru**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes i ddatgan nad yw Pennaeth yr Adran Cymorth Dysgu Ychwanegol wedi cysylltu â'r deisebwyr eto.

**P-03-187 Diddymu'r tollau ar y ddwy bont Hafren**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i

Ysgrifennu at y Dirprwy Brif Weinidog i ofyn ynghylch yr amserlen ar gyfer cwblhau a chyhoeddi'r asesiad effaith economaidd ar dollau Pont Hafren.

**P-03-204 Atebolrwydd i'r cyhoedd ac ymgynghoriadau cyhoeddus ym maes Addysg Uwch**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y deisebwr gyda manylion adroddiad McCormick ar Lywodraethiant Addysg Uwch i ofyn am ei farn am y canfyddiadau.

**P-03-221 Gwell triniaeth traed drwy'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon..

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y deisebwyr i ofyn iddynt hysbysu'r pwyllgor sy'n olynu'r Pwyllgor hwn a ydynt yn rhan o'r broses ymgynghori.

**P-03-238 Llygredd ym Mornant Porth Tywyn**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y deisebwyr i ofyn am enghreifftiau penodol o lle maent yn teimlo nad yw Asiantaeth yr Amgylchedd yn gweithredu ei dyletswyddau statudol.

**P-03-240 Diogelwch ar ffordd yr A40 yn Llanddewi Felffre**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y Dirprwy Brif Weinidog i ofyn am ragor o wybodaeth am y gwaith arfaethedig ar yr A40 yn Llanddewi Felffre.

**P-03-241 Llanelli Star - Achubwch ein carthffosydd**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Gau'r ddeiseb a pharatoi adroddiad cryno.

**P-03-256 Trenau ychwanegol i Abergwaun**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y Dirprwy Brif Weinidog i ofyn pryd y rhagwelir y bydd yr achos busnes newydd yn cael ei gwblhau ac i fynd i'r afael â'r mater hwn fel blaenoriaeth.

Ysgrifennu at Drenau Arriva Cymru i ofyn am fanylion ei flaenoriaethau ar gyfer y gwasanaeth rheilffordd i Abergwaun.

**P-03-260 Yr Ymgyrch dros Ffurfafen Dywyll**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at Gyngor Sir Powys i ofyn am enghreifftiau o gael gormod o olau ar gefnffyrdd ac iddo eu rhannu â Llywodraeth Cymru unwaith iddynt ddod i law.

Gofyn am farn y deisebwyr am yr ymatebion a gafwyd.

**P-03-261 Atebion lleol i dagfeydd traffig yn y Drenewydd**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y Dirprwy Brif Weinidog i gael eglurhad ynghylch a yw Llywodraeth Cymru'n bwriadu ymgysylltu â'r deisebwyr i fynd i'r afael â'u pryderon, ac i ofyn am fwy o wybodaeth am y dull cyffredinol o gynnal ymgynghoriad pan fydd llwybrau ffyrdd osgoi'n cael eu hystyried.

**P-03-262 Academi Heddwch Cymru**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y Llywydd gyda'r dystiolaeth a gafwyd ar y ddeiseb hon i ofyn am ei farn ynghylch y camau nesaf i'w cymryd.

**P-03-265 Cynnwys gwybodaeth ac addysg am adael gartref yn y Cwricwlwm Cenedlaethol**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ofyn am farn y deisebwyr am ohebiaeth y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes. .

**P-03-271 Ardrethi Busnes yn Arberth / P-03-286 Ardrethi Busnes Ceredigion**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at Asiantaeth y Swyddfa Brisio i ofyn a gynhaliwyd asesiad effaith cyn y broses o ailbrisio'r Cyfraddau Annomestig yn 2010.

Ysgrifennu at y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol i fynegi pryderon Cyngor Sir Benfro a gofyn a roddwyd ystyriaeth i ailgyflwyno'r Cynllun Rhyddhad Ardrethi Gwledig.

Gofyn am farn y deisebwyr am yr ohebiaeth gan yr awdurdodau lleol.

**P-03-273 Cludo tyrbinau gwynt yn y Canolbarth**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y Dirprwy Brif Weinidog i ofyn iddo rannu canfyddiadau treialon y diwydiant â'r pwyllgor a fydd yn gyfrifol am ddeisebau yn y dyfodol.

Ysgrifennu at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ofyn a oes gan awdurdodau lleol y pwerau digonol drwy'r broses gynllunio i fynd i'r afael â'r materion a godwyd yn y ddeiseb.

Ysgrifennu at Ynni Adnewyddadwy Cymru i ofyn am ei farn am y rheoliadau cynllunio ar gludo tyrbinau gwynt a phryderon y deisebwyr.

**P-03-280 Ysbyty Brenhinol Caerdydd**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf gan y deisebwyr am eu barn am y cynlluniau datblygu diwygiedig.

**P-03-281 Mwy o staff mewn Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Gau'r ddeiseb a chyhoeddi adroddiad terfynu cryno.

**P-03-285 Gwrthwynebwch y cynllun i ddifa moch daear**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Gau'r ddeiseb a chyhoeddi adroddiad terfynu cryno.

**P-03-292 Darparu Toiledau Cyhoeddus**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Gynghori ei bod yn bosibl yr hoffai'r pwyllgor a fydd yn gyfrifol yn y dyfodol ystyried ymchwilio i'r mater hwn ymhellach.

**P-03-294 Clymblaid Genedlaethol Menywod Cymru**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol i fynegi anfodlonrwydd y Pwyllgor na chafwyd ymateb llawn ac i ofyn am fwy o fanylion am y trafodaethau a gafodd â Chlymblaid Genedlaethol Menywod Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.

**P-03-301 Cydraddoldeb i'r gymuned drawsryweddol**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Gynghori ei bod yn bosibl yr hoffai'r pwyllgor sy'n gyfrifol yn y dyfodol ystyried cynnal ymchwiliad pellach i'r mater hwn.

**P-03-302 Ffatri Prosesu Compost**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru i ofyn a fyddai mynd yn groes i'r Cynllun Rheoli Arogleuon yn arwain at atal y gweithgareddau dros dro ac i amlygu pryderon y deisebwyr ynghylch cyfathrebu.

**P-03-303 Yn erbyn bwlio homoffobig**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes i ofyn pryd fydd y canllawiau newydd ar fwlio yn cael eu cyhoeddi.

Holi i weld a yw'r Mesur arfaethedig ynghylch Addysg yn gosod unrhyw ofynion ar gyrff llywodraethu mewn perthynas â bwlio homoffobig.

**P-03-308 Achub Theatr Gwent / P-03-311 Theatr Spectacle / P-03-314 Achub Theatr Powys a Theatr Ieuenctid Canolbarth Powys**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at Gyngor Celfyddydau Cymru i ofyn a fydd y strategaeth yn mynd i'r afael â'r pryderon ynghylch ehangu hygyrchedd y celfyddydau a gyflenwir ac y bydd y pwyllgor a fydd yn gyfrifol yn y dyfodol yn cael ei hysbysu ynghylch canlyniadau'r ymgynghoriad i'r strategaeth addysg gelfyddydol newydd.

Cynghori'r pwyllgor a fydd yn gyfrifol y dylai fwrw ymlaen â'r deisebau hyn fel blaenoriaeth yn y Cynulliad newydd, gan gynnwys ystyried a ddylid cymryd tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru.

**P-03-310 Polisïau sy'n helpu i ddiogelu anghenion a hawliau disgyblion**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes i ofyn iddo hysbysu'r pwyllgor a fydd yn gyfrifol ynghylch canfyddiadau'r broses ymgynghori.

**P-03-313 Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cwn) (Cymru) 2011**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ofyn am farn y deisebwyr ynghylch a yw datganiad y Gweinidog yn ateb amcanion y ddeiseb.

**P-03-315 Deiseb i gael croesfan newydd dros Afon Dyfi**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y Dirprwy Brif Weinidog i ofyn iddo roi copi o'r adroddiad opsiynau i'r pwyllgor a fydd yn gyfrifol yn y dyfodol.

**P-03-316 Hebryngwyr croesfannau ysgol**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ofyn am ragor o fanylion ynghylch sut mae awdurdodau lleol yn rheoli mannau hebryngwyr croesfannau ysgol, a pa ffactorau a ystyrir cyn cael gwared ar wasanaethau o'r fath.

**Papur i'w nodi:**

**P-03-077 Sustrans: Galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu a chynnal a chadw rhwydwaith o lwybrau di-draffig a rennir. (Saesneg yn unig)**

Nododd y Pwyllgor y papur.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**
**Mawrth 2011**